CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHU YSGOL GYMUNEDOL TAL-Y-BONT

4.00 - 5.00 PM, 25 MAI 2023

Yn bresennol (Hybrid)	Bethan Davies (Cadeirydd), Llio Rhys, Rhian Nelmes, Trish Huws, Rhian Evans, Helen Ovens, Siwan Evans, Cathryn Lloyd-Williams, Hefin Jones (Pennaeth).
Clerc:	Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredu gan*:
1	**YMDDIHEURIADAU:**		
	Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Catrin M S Davies. **PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriad.		
2i	**DATGELU BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r canlynol:		
	a)	yr angen i ddatgelu eu budd mewn unrhyw eitem ar yr agenda neu a drafodir yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu, a fyddai'n golygu y byddai angen iddynt adael y cyfarfod;	
	b)	byddai unrhyw fudd a ddatgelir yn cael ei gofnodi;	
	c)	bod eitemau a drafodir yn ystod cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.		
2ii	**AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHU**:		
	Nodwyd bod lle gwag am Lywodraethwr Staff ar y corff o hyd.		
2iii	**COFNODION:**		
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22.03.2023, a byddent yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd ac yn cael eu hanfon ymlaen i Adran y Llywodraethwyr.		
2iv	**MATERION YN CODI O'R COFNODION:**		
	Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.		
2v	**PWYLLGORAU:**		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:			Gweithredu gan*:
	PENDERFYNWYD nodi bod y pwyllgor staffio wedi cyfarfod, ei fod yn dilyn gweithdrefnau a bod y broses yn parhau. Diolchodd y Cadeirydd i'r pwyllgor am eu gwaith caled wrth ddelio â'r mater mewn ffordd broffesiynol.		
2vi	**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2022-2023:**		
	Byddai'r Pennaeth a'r Cadeirydd yn paratoi adroddiad erbyn y cyfarfod nesaf, a fyddai ar gael i'r rhieni yn ystod Tymor yr Hydref.		
3i	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**		
	Darparwyd copi o adroddiad y Pennaeth i'r Aelodau yn flaenorol. Cafwyd trafodaeth am y canlynol:		
	a)	**Cyllid:** Roedd y sefyllfa fel y disgwyl a rhagwelir y bydd gwarged ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Ni chafwyd adroddiad hyd yn hyn.	
	b)	**Staffio**: Nodwyd y byddai newid dros dros i'r sefyllfa o ran staffio yng Nghraig Yr Wylfa, a fyddai'n effeithio ar yr Ysgol. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:** y byddai'r Pennaeth yn addysgu yng Nghraig yr Wylfa bob dydd Gwener. Y byddai 3 dosbarth o fis Medi ac roedd yr holl Aelodau yn fodlon â'r strwythur addysgu newydd. Caniatáu i'r Pennaeth hysbysebu unrhyw swyddi gwag ar unwaith yn ôl yr angen.	
	c)	**Monitro:** Cynhaliwyd rhan gyntaf ymweliad craidd 2 a chafwyd adborth cadarnhaol a rhai argymhellion, a chynhaliwyd yr ail ran heddiw, lle y nodwyd y rhoddwyd sylw i argymhellion. Cyflwynwyd argymhellion pellach. Cwblhawyd adroddiadau gan y staff a chawsant adborth cadarnhaol ar y dydd. Mae disgyblion yn rhannu arfer da ac yn annog ei gilydd. Bydd Llywodraethwyr yn ymweld â'r Ysgol ar 13 Mehefin i fonitro gweithgarwch darllen Cymraeg. Cytunir ar argymhellion yn y Cynllun Datblygu Ysgol y tymor nesaf, gyda mân newidiadau.	
3ii	**CYLLID:**		
	PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gyllideb weithio a osodwyd gan yr Ysgol.		
4	**HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:**		
	PENDERFYNWYD nodi y cynhelir cyfarfod tymhorol y Fforwm Llywodraethwyr ar 7 Mehefin am 6pm dros Zoom.		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethu:		Gweithredu gan*:
5	**POLISÏAU, POLISÏAU ANSTATUDOL:**	
	PENDERFYNWYD nodi bod y Polisïau Anstatudol canlynol wedi cael eu hadolygu yn unol ag amserlen yr ALl: Polisi DBS/Recriwtio Diogel Polisi Urddas yn y Gwaith Polisi Ymweliadau Addysgol Polisi Anghenion Gofal Iechyd Polisi Tywydd Garw/Amhariad i'r Gwasanaeth Polisi Caniatâd i fod yn Absennol Polisi Plant sy'n Derbyn Gofal Polisi Rheoli Newid Sefydliadol mewn Ysgolion Polisi Rheoli Safle Polisi Atal Eithafiaeth Canllawiau Trawsryweddol i Ysgolion Polisi Toiledau Ysgol Polisi Rheoli Absenoldeb Salwch Polisi Rhwydweithio Cymdeithasol ac E-Ddiogelwch Polisi Rheoli Straen Polisi Camddefnyddio Sylweddau Datblygu Cynaliadwy Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Polisi Chwythu'r Chwiban Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gyfan Polisi Gwisg Ysgol a nodi nad yw'r Ysgol yn mynnu bod gwisg ysgol yn cael ei gwisgo.	
6	**GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:**	
	Dim materion i'w trafod.	
7	**UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:**	
	Cafwyd llythyr a chyfraniad ariannol o £1000 gan y Cylch Meithrin am ddefnyddio safle yr Ysgol. **PENDERFYNWYD** derbyn y rhodd a diolch iddynt am eu haelioni.	
8	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**	
	PENDERFYNWYD nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu Llawn ar 09.11.2023.	

PL
24:05:2023
Cadeirydd …… Dyddiad ……